# ACHOSION CYFRAITH GYHOEDDUS

Pan fydd partïon yn gofyn am orchymyn datgelu gan yr heddlu, gofynnwch y cwestiynau a ganlyn:

1. A YW'R AWDURDOD LLEOL WEDI YSTYRIED COFNODION A GEDWIR GANDDYNT AC WEDI GOFYN AM GANIATÂD YR HEDDLU I DDATGELU'R DOGFENNAU HYNNY I'R PARTÏON AC I'R LLYS?

   Noder: Os yw Cynhadledd Achos Amddiffyn Plant (CPCC)/Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC) wedi ei threfnu mewn perthynas â'r plentyn/plant, bydd yr awdurdod lleol wedi cael adroddiad gan yr heddlu yn cynnwys gwybodaeth sy'n dyddio'n ôl 5 mlynedd o'r cyfarfod cychwynnol. Ni ddylid rhannu'r ddogfen hon oni bai fod yr heddlu wedi rhoi caniatâd drwy'r llwybr protocol.

2. A YW'R AWDURDOD LLEOL WEDI CYFLWYNO CAIS ATODIAD 1 AM DDATGELIAD I'R HEDDLU? OS FELLY, PRYD CYFLWYNWYD Y CAIS?

   Os yw'r protocol wedi cael ei roi ar waith, rhaid caniatáu'r cyfnod perthnasol i'r heddlu ymateb a darparu datgeliad (sef hyd at 20 diwrnod busnes) oni bai am amgylchiadau eithriadol.

   Os nad yw partïon wedi cyflwyno cais, rhaid eu cyfarwyddo i wneud hynny gan ddefnyddio'r Cais am ddatgelu Gwybodaeth yr Heddlu (Atodiad 1).

   <u>Ni</u> ddylid gwneud gorchymyn yn cyfarwyddo'r heddlu i ddarparu datgeliad.

3. PA WYBODAETH Y GOFYNNWYD AMDANI GAN YR HEDDLU?

   Rhaid i bartïon sicrhau eu bod yn defnyddio'r cais yn gymesur gan ystyried yr hyn sy'n rhesymol, yn uniongyrchol berthnasol ac yn angenrheidiol wrth geisio datgeliad.

   Adran 4: Cofnodion LEDS **euogfarnau/rhybuddiadau/rhybuddion yr unigolyn;*
   Adran 5: adroddiad cryno **mewn achosion lle nad yw'r partïon yn ymwybodol o hanes troseddol yr unigolyn neu lle mae angen adroddiad arnynt sy'n rhoi manylion honiadau a wnaed i'r heddlu dros gyfnod penodol;*
   Adran 6: adroddiadau ymchwiliadau yn unig. **Rhaid i bartïon allu darparu cyfeirnodau troseddau neu'r dyddiadau penodol y gwnaed honiadau. Bydd ceisiadau pellgyrhaeddol yn cael eu gwrthod.*
   Adran 7: gwybodaeth ychwanegol am ymchwiliadau penodol. **I ddechrau, dylai'r partïon ofyn am adroddiad(au) perthnasol yr ymchwiliad ac, ar ôl eu hadolygu, dylent gyflwyno cais wedi ei ailddiffinio am ddogfennau penodol.*
   Adran 8: caniatâd i rannu gwybodaeth yr heddlu a gedwir gan yr awdurdod lleol.

4. PA YMATEB A GAFWYD GAN YR HEDDLU?

# ACHOSION CYFRAITH BREIFAT

Pan fydd partïon yn gofyn am orchymyn datgelu gan yr heddlu, ystyriwch y canlynol:

1. RHAID CYFARWYDDO CYNRYCHIOLWYR CYFREITHIOL I LENWI FFURFLEN ATODIAD 1.

   RHAID I'R LLYS DDOGFENNU'R CAIS YN ATODIAD 5.

   DIM OND OS YW'R PROTOCOL WEDI CAEL EI ROI AR WAITH,OS YW'R CAIS AM WYBODAETH YN GYMESUR A BOD YR HEDDLU WEDI CAEL AMSER RHESYMOL I GYDYMFFURFIO Y DYLID GWNEUD GORCHYMYN SY'N CYFARWYDDO'R HEDDLU I DDARPARU DATGELIAD.

2. AR GYFER YMGYFREITHWYR DROSTYNT EU HUNAIN, RHAID BOD CYFARWYDDYD DATGELU YN CAEL EI WNEUD GAN DDEFNYDDIO ATODIAD 5. RHAID I'R GORCHYMYN LLYS DDARPARU DIGON O FANYLION I ALLUOGI'R HEDDLU I BROSESU'R CAIS AM DDATGELIAD

   NI CHANIATEIR I YMGYFREITHWYR DROSTYNT EU HUNAIN GWBLHAU FFURFLEN ATODIAD 1.

3. PA WYBODAETH DDYLID GOFYN AMDANI GAN YR HEDDLU?

   Rhaid i bartïon sicrhau eu bod yn defnyddio'r cais yn gymesur gan ystyried yr hyn sy'n rhesymol, yn uniongyrchol berthnasol ac yn angenrheidiol wrth geisio datgeliad.

   Adran 4: Cofnodion LEDS **euogfarnau/rhybuddiadau/rhybuddion yr unigolyn;*
   Adran 5: adroddiad cryno **mewn achosion lle nad yw'r partïon yn ymwybodol o hanes troseddol yr unigolyn neu lle mae angen adroddiad yn manylu ar honiadau a wnaed i'r heddlu dros gyfnod penodol;*
   Adran 6: adroddiadau ymchwiliadau yn unig. **Rhaid i bartïon allu darparu cyfeirnodau troseddau neu'r dyddiadau penodol y gwnaed honiadau. Bydd ceisiadau pellgyrhaeddol yn cael eu gwrthod.*
   Adran 7: gwybodaeth ychwanegol am ymchwiliadau penodol. **I ddechrau, dylai'r partïon ofyn am adroddiad(au) perthnasol yr ymchwiliad ac, ar ôl eu hadolygu, dylent gyflwyno cais wedi ei ailddiffinio am ddogfennau penodol.*

4. PA YMATEB A GAFWYD GAN YR HEDDLU?

## CYFARWYDDIADAU ENGHREIFFTIOL

### Methiant i gydymffurfio â chais Atodiad 1 am ddatgeliad

Bydd yr [heddlu] yn datgelu i [ENW] erbyn [X DYDDIAD] yr wybodaeth y gofynnwyd amdani fel rhan o'r Cais am ddatgelu Gwybodaeth yr Heddlu (Atodiad 1). Mae modd i'r [heddlu] wneud cais i'r llys i amrywio'r gorchymyn hwn ar ôl rhoi rhybudd i'r partïon, erbyn [X DYDDIAD].

### Tystiolaeth ddigidol sy'n perthyn i'r partïon

Mae'n rhaid i'r [heddlu] ddatgelu i [ENW] erbyn [X DYDDIAD] [natur fanwl y dystiolaeth ddigidol] ynghylch [ENW] ar gyfer y cyfnod perthnasol, sef [X DYDDIAD – X DYDDIAD], a hynny mewn fformat heb ei olygu, ac mae'n rhaid i'r llys fod yn fodlon bod yr wybodaeth hon yn dystiolaeth angenrheidiol i gael ei dwyn gerbron y llys. Mae modd i'r [heddlu] wneud cais i'r llys i amrywio'r gorchymyn hwn ar ôl rhoi rhybudd i'r partïon, erbyn [X DYDDIAD].

### Tystiolaeth ddigidol sy'n perthyn i drydydd partïon

Mae'n rhaid i'r [heddlu] ddatgelu i [ENW] erbyn [X DYDDIAD] [natur fanwl y dystiolaeth ddigidol] ynghylch [ENW] ar gyfer y cyfnod perthnasol, sef [X DYDDIAD – X DYDDIAD], a hynny mewn fformat heb ei olygu, ac mae'n rhaid i'r llys fod yn fodlon bod yr wybodaeth hon yn dystiolaeth angenrheidiol i gael ei dwyn gerbron y llys. Bydd yr Heddlu'n rhoi gwybod am y cyfarwyddyd hwn i [ENW trydydd parti] erbyn [X DYDDIAD], a bydd gan [ENW trydydd parti] hawl i wneud cais i amrywio'r gorchymyn hwn drwy roi gwybod i bob parti. Os yw [ENW trydydd parti] yn bwriadu gwneud cais i amrywio'r gorchymyn hwn, rhaid iddo/iddi wneud hynny erbyn [X DYDDIAD].

### Datgeliad parhaus

Ar ôl cael cadarnhad ysgrifenedig gan yr awdurdod lleol bod angen diweddaru'r datgeliad, mae'r [heddlu] yn cael eu cyfarwyddo drwy hyn i ddarparu datgeliad wedi ei ddiweddaru, gan gynnwys [rhowch yr hyn sy'n ofynnol] ar [rhowch ddyddiadau penodol] hyd at y gwrandawiad terfynol neu ganfod ffeithiau ar [rhowch y dyddiad].

**Sylwer**

**Materion ar ôl cyhuddo:** Rhaid i unrhyw gyfarwyddyd y mae'r llys o'r farn ei fod yn angenrheidiol ei ddatgelu gael ei wneud yn erbyn Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r heddlu.

**Delweddau anweddus:** Yn ystod ymchwiliad, gall yr heddlu atafaelu deunydd sy'n cynnwys delweddau anweddus o blant (dan 18) neu ddelweddau o'r fath yr honnir eu bod yn anweddus. Os yw'n berthnasol ac yn angenrheidiol, dylai cais geisio cael disgrifiad yr heddlu o'r delweddau hynny, neu ddisgrifiad pellach a gwell, nid y delweddau eu hunain. Ni chaniateir mynediad at ddelweddau o'r fath heb orchymyn barnwr Llys Teulu. Dylai barnwr y gofynnir iddo ystyried gorchymyn sy'n hwyluso mynediad i'r delweddau eu hunain gael gwybod am ddarpariaethau adran 160 Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 ac adrannau 1 i 7 o Ddeddf Amddiffyn Plant 1978, yn enwedig trosedd 'gwneud llun anweddus o blentyn' a'r amddiffyniadau

statudol ac eithriadau, a dim ond trefnu mynediad dan reolaeth a hwylusir gan yr heddlu (gan gynnwys mynediad sy'n caniatáu i barti gael trafodaeth gyfrinachol gyda'u cynrychiolwyr cyfreithiol) y dylid gofyn iddynt ei ystyried. Mae'r un ystyriaethau'n berthnasol i ddelweddau eraill lle mae lledaenu wedi ei wahardd.